



Beth yw'r Argyfwng Hinsawdd?



Ym mis Mai 2019 fe wnaeth Cyngor Sir Fynwy ddatgan Argyfwng Hinsawdd. Mae mynd i'r afael â newid hinsawdd yn wirioneddol bwysig, oherwydd os bydd tymheredd y blaned yn codi 2°C rydym yn wynebu risgiau o sychder, llifogydd a thlodi – bydd yr effaith yn anferthol i gannoedd o filiynau o bobl. Yn Sir Fynwy mae'r effeithiau allai ddigwydd yn cynnwys digwyddiadau tywydd mwy eithafol (fel stormydd), prinder dwr, sychder, colli rhywogaethau a risg o lifogydd.

Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae llawer o bethau mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud i geisio lleihau ein allyriadau carbon, fel lleihau ein defnydd o ynni, cynhyrchu ynni solar a cheisio annog ceir trydan. Fodd bynnag, nid yw'r pethau hyn yn ddigon ar eu pen eu hunain i ymdrin â'r Argyfwng Hinsawdd. Mae angen gweithredu newydd i wneud gwahaniaeth i'r holl gymunedau a dinasyddion yn Sir Fynwy – mae'n ymwneud â sut ydym yn teithio, byw, bwyta, cynhyrchu ein bwyd, siopa a sut ydym yn rhan annatod o'n hamgylchedd. Rhaid i hyn i gyd weithio gan gydbwyso anghenion busnes a chefnogi ein economi wledig/amaethyddol nawr ac yn y dyfodol.



Beth yw Teithio Llesol?



Term yw Teithio Llesol a ddefnyddir i ddisgrifio cerdded a beicio i gymryd lle teithio mewn car i gyrraedd cyrchfan (a elwir hefyd yn "deithiau pwrpasol"). Nid yw'n cynnwys cerdded a beicio i ddibenion hamdden yn unig er y gallai wella gweithgareddau hamdden yn sylweddol trwy helpu i gysylltu rhwydweithiau. Mae'n golygu, er enghraifft, rhywun yn cerdded neu feicio i fynd i'w gwaith, siopau, ysgol, mynd allan i le hamdden, neu i'r orsaf i ddal trên.

Pam fod Teithio Llesol yn bwysig


Mae manteision enfawr mewn annog mwy o Deithio Llesol. Mae cynnwys cerdded a beicio yn eich bywyd arferol bob dydd yn ffordd ragorol o wella eich iechyd a'ch llesiant. Wrth ei gymharu â gyrru, gall hefyd arbed arian ichi ar gostau tanwydd a pharcio; gall beicio hyd yn oed leihau amser teithio i'r gwaith wrth osgoi cael eich dal ar ffyrdd prysur. Bydd Teithio Llesol hefyd yn helpu gostwng lefelau traffig ac felly leihau llygredd aer, swm, ac allyriadau newid hinsawdd.





Beth yw ein Gweledigaeth?

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi bod yn gweithio ar gynigion i wella Ffordd Casnewydd i'r gorllewin o ganol tref Cil-y-coed. Y nod yw creu lle dymunol a chroesawgar i drigolion, busnesau ac ymwelwyr, a llwybr gwyrdd a deniadol i gerdded a beicio drwyddo.



Mae gan y Cyngor Sir a'r partneriaid weledigaeth o ddatblygu Cil-y-coed fel lle ac iddo rwydwaith o strydoedd a llwybrau sy'n hygyrch, diogel a deniadol. Mae'n gweithio tuag at ddatblygu cysylltiad o'r dwyrain i'r gorllewin sy'n cynnwys:

- Creu llwybr ar y cyd i feicwyr a cherddwyr ar hyd hen reilffordd y Weinyddiaeth Amddiffyn Caerwent, y "Lôn Las".
- O'r "Lôn Las", llwybr a rennir trwy'r Castell a'r Parc Gwledig a ddaw allan ar Ffordd yr Eglwys
- Cwblhau'r cam sydd ar ôl o'r gwaith ar Ffordd yr Eglwys
- Gwella parth cyhoeddus canol y dref fel ei fod yn annog gweithgarwch a threulio amser ynddo ac yn cysylltu â llwybrau teithio llesol eraill
- Archwilio ffyrdd o wella ansawdd bywyd i drigolion Ffordd Casnewydd sy'n ffurfio rhan o'r digwyddiad ymgynghori hwn

Caiff y prosiect hwn ei gyllido gan Gyngor Sir Fynwy a Rhaglen Teithio Llesol Llywodraeth Cymru

Beth yw'r Ystyriaethau?

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar Ffordd Casnewydd rhwng canol y dref a'r B4245. Defnyddir y rhan hwn o'r ffordd gan drigolion sy'n byw yno neu yn y ciliau cyfagos, yn ogystal â phobl sy'n teithio tuag at ganol y dref neu gysylltu â'r B4245. Mae'n llwybr cerdded pwysig i bobl sy'n mynd i ganol y dref ac i orsaf Cil-y-coed, ac i bobl ifanc sy'n cerdded i ysgol Cil-y-coed.



Mae'r pwyslais ar geir a cherbydau, yn hytrach na cherddwyr a beicwyr, yn bryder allweddol.



Byddai amgylchedd gwyrddach yn helpu gwneud lle mwy dymunol a deniadol, ond mae manteision amgylcheddol hefyd fel darparu cynefin i fywyd gwylt.



Cyfle i greu troedffordd lletach ar hyd y ddwy ochr.

Mae'r gerbyttffordd yn llydan ac mae cerbydau'n teithio'n gymharol gyflym, ond mae'r droedffordd yn gul neu'n gyfan gwbl absennol mewn manau.



Mae'r ffordd hefyd yn llwybr beicio lleol a chenedlaethol, ond gall deimlo fel amgylchedd anneniadol ac anniogel i'r beicwyr sy'n ei defnyddio.



Cyfle i greu troedffordd lletach ar hyd y ddwy ochr. Mae hyn yn rhoi mwy o le i gerddwyr ac yn helpu lleihau cyflymder cerbydau, sy'n ddiogelach i feicwyr.



Beth yw'r Syniadau?

Cynt



Wrth ddatblygu syniadau ar gyfer Ffordd Casnewydd, buom yn edrych ar y canlynol:

- Cyfleoedd i leihau'r gerbyttfordd lydan
- Newid teimlad y ffordd
- Caniatáu llwybrau troed ar hyd yr ochrau gogleddol a deuheuol
- Cyfleoedd i ddarparu mwy o lecynnau gwyrdd
- Hyrwyddo bioamrywiaeth
- Bydd croesi'r ffordd yn dod yn haws i gerddwyr trwy godi'r ffordd i lefel y droedffordd a symud y nod 'ildiwch' i geir er mwyn creu lle i groesi
- Bydd pen gogleddol y cynllun ar gyffordd Jubilee Way yn cynnwys gwell lle croesi i gerddwyr
- Bydd y stryd yn dod yn lle mwy dymunol i feicwyr gyda chyflymder traffig is a gwell wyneb i deithio ar hyd-ddo

Wedyn



Enghreifftiau o leoedd eraill



Troedffyrdd lletach



Strydoedd i chwarae



Lleoedd gwell i fyw



Mwy o wyrddni



Diogelach i gerddwyr a beicwyr

Caiff y prosiect hwn ei gyllido gan Gyngor Sir Fynwy a Rhaglen Teithio Llesol Llywodraeth Cymru




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MonLife
Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community

monmouthshire
sir fynwy



Beth yw'r Syniadau?




Ar hyn o bryd


Yr hyn a gynigir

Toriad Trwy'r Stryd



Ar y Gyffordd gyda Jubilee Way



Ger y Measure Inn



Dod o'r B4245




Mae'r cynllun uchod a'r lluniau sy'n mynd gydag ef yn dangos sut y gallech chi wella llawer ar y rhan hwn o Ffordd Casnewydd. Mae graddau'r gwelliant yn ddibynnol ar y cwestiwn a allwn ni gau'r ffordd i draffig trwodd. Cydnabyddwn fod hyn gynnig uchelgeisiol sy'n gofyn am ystyriaeth ddifrifol i ddeall y manteision a'r effeithiau ar Ffordd Casnewydd ac yn yr ardal leol.

I brofi hyn, mae'r Cyngor Sir wedi trefnu cau'r ffordd fel arbrawf am gyfnod o 3 wythnos, yn cychwyn dydd Llun 11 Hydref hyd ddydd Sul 31 Hydref. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddeall unrhyw effeithiau, boed nhw'n rhai negyddol neu gadarnhaol.

Caiff y prosiect hwn ei gyllido gan Gyngor Sir Fynwy a Rhaglen Teithio Llesol Llywodraeth Cymru




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community



monmouthshire
sir fynwy



Rhowch eich Barn

Treialu'r syniadau

Cydnabyddwn fod cau Ffordd Casnewydd i draffig trwodd yn gynig uchelgeisiol sy'n gofyn am ystyriaeth ddifrifol er mwyn deall y manteision a'r effeithiau ar Ffordd Casnewydd ac yn yr ardal leol.

I brofi hyn, bydd Ffordd Casnewydd ar gau i draffig trwodd o **ddydd Llun, 11 Hydref hyd ddydd Sul, 31 Hydref**. Bydd ei chau am dair wythnos yn ein helpu ni i ddeall unrhyw effeithiau, negyddol neu gadarnhaol. I fonitro'r arbrawf, rydym yn cyflawni'r canlynol:

- **Cyfrifiadau traffig** cyn ac yn ystod y cyfnod treialu i ddeall sut mae patrymau teithio yn newid. Mae'r rhifyddion hyn ar Ffordd Casnewydd a'r rhwydwaith ehangach o ffyrdd.
- Arolygon ar **gerdded a beicio** ar hyd Ffordd Casnewydd cyn ac yn ystod y treialu.
- O fewn canol y dref, rydym yn cynnal arolygon ar **barcio a symudiad cerddwyr**, er mwyn deall a yw'r cau arbrofol wedi cael unrhyw effaith ar lefelau siopa a gweithgareddau eraill.
- Rydym yn **siarad gyda thrigolion a busnesau lleol** yn ystod y cyfnod treialu i wrando ar eu hymateb ac i ddeall a oes materion ymarferol ar syniadau eraill i'w hystyried.



Eich Profiadau

Er mwyn ein helpu ni i ddeall a yw'r cynnig hwn yn dod â buddion cadarnhaol i bobl sy'n byw neu fasnachu ar Ffordd Casnewydd ac i'r dref yn ehangach, byddem yn ddiolchgar os gallech roi eich barn trwy un o'r ffyrdd canlynol:

- Ymweld â www.monmouthshire.gov.uk ac edrych ar dudalen ein prosiect ar adfywio Cil-y-coed a'r prosiect hwn
- Cwblhau'r arolwg ar-lein:
- <https://www.surveymonkey.co.uk/r/newportrdcym>
- Defnyddio camera eich ffôn a sganio'r cod QR canlynol a fydd yn mynd â chi i'n gwefan a'r arolwg.
- Dewch draw i rannu eich barn gyda swyddogion y Cyngor, a fydd yma ddydd Gwener 22 a dydd Sadwrn 23 Hydref o 10am hyd 5pm.
- Trwy gwblhau copi caled o'r arolwg o'r pentwr isod a'i gyflwyno i Ganolfan Gymunedol Cil-y-coed erbyn 3 Tachwedd 2021.

A yw Ffordd Casnewydd yn teimlo'n dawelach?

A yw pobl yn cerdded a beicio mwy?

Ydych chi'n teimlo'n saffach?

Ydych chi'n teimlo'n well ac yn fwy egniol?

Allwch chi fynd o gwmpas yn haws?

Sut mae'r ffyrdd gerllaw?



Caiff y prosiect hwn ei gyllido gan Gyngor Sir Fynwy a Rhaglen Teithio Llesol Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ar gyfer meddwl, corff ac enaid ein cymuned
For the mind, body and soul of our community



monmouthshire
sir fynwy